

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala:
7fed o Fehefin 2012

839.Presennol : Y Cyng. Ivora Jones, Dirprwy Faer, John C Williams, Alun Price, Dilwyn Jones, Dorothy Evans, Dilys Evans, Eluned Jones, Y Cyng Sir Dilwyn Morgan
Ymddiheuradau : Shan Ranson, Edith Roberts, Eifion Roberts, Sharon Evans
Rhoddwyd croeso i pawb i'r cyfarfod gan y Dirprwy Faer Mrs Ivora Jones.

8 40. Roedd neb yn datgan buddiant.

841. Darllenwyd a cadarnhau y cofnodion o cyfarfod 10fed o Fai yn gywir gan ychwanegu mae stondinau y ffair ar 14 o Fai sydd yn cael eu cyfeirio atynt.

842. Croesawyd cynrychiolaeth o'r Ymatebwyr Cyntaf yn y Cymuned, y Bala, Gethin, Heini a Wayne.

Mae ymatebwyr ardal y Bala nawr wedi eu sefydlu ers ychydig wythnosau, ac wedi cael oddeutu 10 galwad mewn prin amser. Mae Ymatebwyr Cyntaf yn Gwirfoddolwyr sy'n mynychu galwadau 999 priodol yn eu amser eu hunain a chynnig gofal brys i bobl yn eu cymuned eu hunain, at claf sydd ddim mwy na 8 munud i ffwrdd. Nid ydynt yn cael eu danfon at unrhyw sefyllfa ansicr neu os oes perylg eu diogelwch. Hyfforddir hwy gan y Gwasaneath Ambiwlans i weinyddu sgiliau cymorth cyntaf sylfaenol, therapy ocsigen, adferiad cardiopwlmonaidd a defnyddio diffibrilydd. Paratowyd yr offer cymorth cyntaf gan y Gwasaneth Ambiwlans ond meant yn ceisio codi arian eu hunain ac wedi bod yn ffodus o gael nawdd yn ddiweddar gan Magnox. Eu uchelgais yw cael car pwrpasol fel bod y cyhoedd yn adnabod eu bod ar ffordd i argyfwng. Mae nhw hefyd fel tim yng nhgofal recriwtio eraill i cadw safonau gwasanaeth a lleihau y baich, rhan amlaf mae nhw yn mynd allan bob yn ddau. Diolchwyd iddynt am ddod atom i egluro rhagor wrthym am y gwasanaeth gwerthfawr yma.

843. Materion Cynghorydd Sir –Llinellau Melyn, Mae Pwyllgor ardal Meirionydd o Cyngor Gwynedd wedi rhoi sel bendith ar y llinellau melyn o gwmpas Heol Tegid ac mae contractwyr yn dod allan yn fuan.

Tynwyd sylw at y ffaith nad oed Pwyllgor Llyn Tegid wedi cael eu cynnal ers peth amser. Bydd pwyllgor yn cael eu drefnu at mis Hydref.

844.Materion yn codi o'r cofnodion:

Coeden ger y Fainc - Nid oes gan y swyddog coed awgrymiadau sut i rhwystro adar rhag glanio yn y goeden ac felly baeddu y fainc.

Dwr Cymru orsaf triniaeth dwr LLidiardau – diweddariad bod connection yn cael eu gwneud ar yr ail o Fehefin.

Tomen y Bala : y clerics i drefnu bod y gwair yn cael eu dorri ac hefyd y gwrych isaf, ger y ffordd. Trefniadau wedi eu gwneud i cyngorwyr cyfarfod a swydd Cyngor Gwynedd am y gwaith angenrheidiol.

ArwyddwydMaer

ArwyddwydClerc

845. Materion yr Heddlu: - Cafodd y Cyng Dilwyn Morgan cyfarfod gyda yr Arolygydd Mark Armstrong ac yr Aelod Seneddol yn ddiweddar. Cadarnhaodd yr Arolygydd iddo bod bu rhaid ail feddwl y sefyllfa ac bydd Bala ddim yn cael eu is raddio ac yn gobeithio gweld y sefyllfa yn gwella yn y dyfodol ond yn ddibynnol ar cyllid. Mae Mr Morgan yn gobeithio cyfarfod yn fisol gyda'r heddlu ac am wneud eu orau i gael Heddwes nol yn y dref.

946.Materion Cynllunio: nid oes materion wedi dod i law.

Materion Cyllid:Cymeradwyd i dalu anfoneb Vodafone, anfoneb RA Jones am llafur ac offer i osod sylfaen i'r fainc ar y Stryd Fawr. Hefyd costau cwrs hyfforddiant a cyfraniad costau teithio i'r cwrs yn Caernarfon.

Rhodddwyd yr rhestr asedau i Dorothi Evans.

847. Gohebiaeth:

Ysgol y Berwyn - llythr yn gofyn am cefnogaeth at cael ceisio am grant I gael offer gwyddonol I'r ysgol. Paswyd i cefnogi

Cyng Gwynedd- Rhestr gwith Mehefin yn cynwys lladd chwyn a gwair yn y gymuned

Unllais Cymru - Hysbysiad am Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2012

Partneriaeth Penllyn - copi o cofnodion a copiau gohebiaeth er gwybodaeth

Nightingale House – Adroddiad Blynyddol a cais am arian, rhoi y cais i'r ochr at ystyriaeth yn Chwefror blwyddyn nesaf

Canser MacMillan – cais ariannol fel uchod

Ysgol Bro Tegid – llythr yn diolch am y cyfraniad at costau at Eisteddfod yr Urdd

848. Materion Brys

Trafodwyd parcio cyffredinol ar y stryd fawr yn cynnwys rhai ceir yn aros trwy'r dydd, Dilwyn Morgan i drafod gyda swyddog parcio

Y clerc i cysylltu am y polisi yswiriant i ofalu bod popeth yn eu le.

The Deputy Mayor, Mrs Ivora Jones welcomed representatives of the local Community First Responders who have been established here for a few weeks now. They are volunteers who donate their spare time to attend appropriate 999 calls and provide first hand emergency care to people in their own community. They are trained by the Ambulance Service and learn basic first aid skills, oxygen therapy, cardiopulmonary resuscitation and the use of a defibrillator. They stay with the patient until the ambulance arrives. The Gwynedd Councillor Dilwyn Morgan in response to our enquiries reported that Gwynedd Council say the yellow lines around Tegid Street will be done soon. He will mention that there are cars being parked for long periods, all day even on the High Street and will bring it to attention of Traffic warden. He had a meeting with the local police Inspector and mp and will continue to campaign for services for Bala.

ArwyddwydMaer

ArwyddwydClerc